

## CYLCH MEITHRIN TREFEURIG

### POLISI ASTHMA

Bydd **Cylch Meithrin Trefeurig** yn dilyn y polisi hwn a'i addasu yn ôl yr angen a'i adolygu yn flynyddol.

Bydd **arweinydd Cylch Meithrin Trefeurig** yn sicrhau fod pob aelod o staff yn deall y polisi hwn.

Bydd **Cylch Meithrin Trefeurig** yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gwybod am y polisi hwn trwy gymryd y camau canlynol:

(Nodwch sut byddwch yn rhannu'r wybodaeth yma. E.e. Rhoi'r polisi ar wefan y cylch; rhoi'r polisi mewn llawlyfr i rieni; rhoi copi o'r polisi mewn cyntedd neu fan ble gall pobl ei weld; tynnu sylw rhieni a gofalwyr at bolisi mewn nosweithiau / boreau i rieni. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn)

1 Rhoi'r polisi mewn cyntedd yn y ffeil polisiau \_\_\_\_\_

2 Tynnu sylw rhieni a gofalwyr at bolisi mewn cyfarfod a nosweithiau rieni \_\_\_\_\_

#### ADOLYGWYD GAN

(Enw)

(Llofnod)

#### DYDDIAD

(Pryd)

---

---

---

---

*(Awgrymir eich bod yn adolygu eich polisi yn flynyddol a hysbysu AGC, lle bo hynny'n berthnasol, os ydych wedi gwneud newidiadau iddo.)*

## **CYLCH MEITHRIN TREFEURIG**

### **ASTHMA POLICY**

**Cylch Meithrin Trefeurig** follows this policy, reviews it annually and updates it as required.

The **leader of Cylch Meithrin Trefeurig** will ensure that every member of staff understands this policy.

**Cylch Meithrin Trefeurig** will ensure that parents and carers are aware of this policy by taking the following steps:

(Note how you will share this information. e.g. Policy will be placed on the Cylch Meithrin website; Policy to be given in a handbook to parents / carers; place policy in the entrance or where people are able to view it; draw the attention of parents and carers to the policy during parents evenings / mornings. This list is not exhaustive.)

- 1      The policy will be placed in the entrance to the Cylch in a policy file\_\_\_\_\_
  
- 2      We will draw the parents and carers attention to the policy in meetings and parent evenings\_\_\_\_\_

#### **REVIEWED BY**

#### **DATE**

(Name)

(Signature)

(Date)

---

---

---

---

*(It is suggested that you review your policy annually and notify CSSIW, where appropriate, of any changes you make.)*

## ASTHMA

Asthma yw'r cyflwr cronig mwyaf cyffredin ymhlieth plant, ac mae'r cyfraddau asthma yng Nghymru ymysg y cyfraddau uchaf yn y byd – mae'n effeithio ar un o bob naw o blant<sup>1</sup>.

Mae'n hollbwysig bod staff y Cylch Meithrin yn gwybod sut i ofalu am blant sydd yn dioddef asthma. Mae asthma'n gyflwr hir-dymor sydd yn effeithio ar diwbiau bach yn yr ysgyfaint a elwir yn llwybrau anadlu. Rhain sydd yn cludo aer mewn ag allan o'r corff. Os oes gan blentyn asthma, mae eu llwybrau anadlu yn dueddol o chwyddo a mynd yn goch. Pan fydd plant ag asthma yn dod i gysylltiad â sbardun asthma, megis gwaltt anifail anwes, paill, feirws ayyb., gall eu llwybrau anadlu gulhau gan ei gwneud yn anodd i anadlu. Gall y cyflwr amrywio o beswch achlysurol i symptomau difrifol gallai beryglu bywyd.

### Hawliau Plant

Mae sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o sicrhau fod y Cylch Meithrin / Meithrinf a Ddydd yn parchu hawliau plant sydd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant, yn benodol:

- Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.
- Erthygl 6: Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu fod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.
- Erthygl 15: Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac ymuno gyda grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.
- Erthygl 24: Mae gan blant yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân iddyn nhw gadw'n iach.
- Erthygl 29: Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalent pob plentyn yn gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, a'u diwylliant nhw ac eraill.

---

<sup>1</sup> Canllawiau ar y defnydd o salbutamol brys mewn ysgolion yng Nghymru  
<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/15021-use-of-emergency-salbutamol-inhalers-guidance-cy.pdf>

## **ASTHMA**

Asthma is the most common chronic childhood condition, and rates of asthma in Wales are amongst the highest in the world – affecting one in every nine children.<sup>2</sup>.

It is vitally important that Cylch Meithrin staff know how to care for children who suffer from asthma. Asthma is a long-term condition which affects the small tubes in the lungs known as airways. These carry air in and out of the body. If a child has asthma these airways have a tendency to swell and redden. When asthmatic children come into contact with an asthma trigger, such as pet hair, pollen, a virus etc., this can cause their airways to narrow, making it difficult to breathe. The condition can vary from an occasional cough to serious and life threatening symptoms.

## **Children's Rights**

Ensuring health, safety and welfare is one of the ways that the Cylch Meithrin / Day Nursery demonstrates its respect for children's rights, as outlined by the United Nations Convention on the Rights of the Child, specifically:

- Article 3: All organisations concerned with children should work towards what is best for each child.
- Article 6: All children have the right of life. Governments should ensure that children survive and develop healthily.
- Article 15: Children have the right to meet together and to join groups and organisations, as long as this does not stop other people from enjoying their rights.
- Article 24: Children have the right to good quality health care and to clean water, nutritious food and a clean environment so that they will stay healthy.
- Article 29: Education should develop each child's personality and talents to the full. It should encourage children to respect their parents, and their own and other cultures.

---

<sup>2</sup> Guidelines on the emergency use of salbutamol in schools in Wales:

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/15021-use-of-emergency-salbutamol-inhalers-guidance-en.pdf>

## Achosion Asthma

Mae asthma pawb yn wahanol i'w gilydd a bydd y Cylch yn sicrhau ein bod yn gwybod beth yw achosion asthma penodol y plant yn ein gofal ble bo'n bosibl. Ymhlieth yr achosion tebygol mae:

- Annwyd neu Feirws
- Ymarfer Corff
- Newid Tymheredd / Tywydd Sydyn
- Emosiynau
- Alergeddau (e.e. paill, anifeiliaid, llwch, llwydni)
- Llidyddion (e.e. mwg tybaco, llygredd cemegol)

## Triniaeth Asthma

Mae dau brif fath o driniaeth asthma – lliniarwyr ac atalwyr. Fel arfer, mae anadlyddion lliniaru yn las ac yn cael eu cymryd gan y plentyn pan fydd symptomau asthma yn ymddangos. Maent yn ymlacio'r cyhyrau sy'n amgylchynu'r llwybrau anadlu cul, gan ei gwneud hi'n haws anadlu eto. (Mae Asthma UK yn awgrymu pe bai angen i blentyn ddefnyddio anadlydd lliniaru fyw na thair gwaith yr wythnos nid yw'r asthma wedi ei reoli yn ddigonol a dylid cael ail asesiad clinigol)

Mae anadlyddion atal yn gallu bod yn frown, weithiau lliwiau arall, ac mae angen eu cymryd bob dydd, hyd yn oed os yw'r plentyn yn teimlo'n dda, gan eu bod yn lleihau'r chwydd yn y llwybrau anadlu. Mae hyn yn golygu bod y plentyn yn llai tebygol o ymateb yn wael pan fyddant yn dod i gysylltiad â sbardun asthma. Mae rhai ffyrdd arall o reoli asthma mewn plant fel tabledi / gronynnau (montelukast) a gwrth-histaminau. Ni fydd anadlyddion atal yn gwella anadlu os oes pwll o asthma difrifol yn taro yn sydyn.

Mae angen i'r rhan fwyaf o blant dan bump oed ddefnyddio dyfais wahanu (spacer) i'w helpu i gymryd eu hanadlydd yn effeithiol. Mae'r dyfeisiad plastig mawr yma, wedi'i siapio fel botel plastig. Ar un pen, mae agoriad i'r geg, ac ar y llall mae twll i'r anadlydd ffitio. Mae dyfais wahanu yn hwyluso defnydd o anadlyddion a sicrhau bod y plentyn yn cael y swm cywir o feddyginaeth i'r ysgyfaint. Os yw'r plentyn o dan dair, efallai y byddant yn defnyddio masg wyned.

Gwnaed newidiadau cyfreithiol<sup>3</sup> yn 2014 i alluogi lleoliadau fel cylchoedd meithrin, meithrinfeidd ag ysgolion i brynu anadlyddion salbutamol, heb bresgripsiwn i'w defnyddio mewn achosion brys. Os bydd eich Cylch yn cadw anadlydd brys o dan y trefniant hwn mae angen i chi fabwysiadu Atodiad A - Polisi **ANADLYDD SALBUTAMOL BRYS CYLCH MEITHRIN** fel rhan o'r polisi hwn.

Bydd y cylch yn:

- rhoi cyfle i bob plentyn ag asthma gymryd rhan lawn yng ngweithgareddau'r cylch.
- sicrhau bod holl amgylchedd y cylch, gan gynnwys yr amgylchedd ffisegol, cymdeithasol, addysgol a'r gweithgareddau yn addas i blant ag asthma, e.e. yn enwedig wrth ymdrin ag anifeiliaid anwes.

<sup>3</sup> [http://www.legislation.gov.uk/ksi/2014/1878/pdfs/ksi\\_20141878\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/ksi/2014/1878/pdfs/ksi_20141878_en.pdf)

## Causes of Asthma

Everybody's asthma is different, and the Cylch will ensure that it knows the specific causes of asthma in the children who are under its care where possible. Among the likely causes are:

- Cold or Virus
- Physical Activity
- Sudden change in temperature or weather
- Emotions
- Allergies (e.g. pollen, animals, dust, mould)
- Irritants (e.g. tobacco smoke, chemical pollution)

## Asthma Treatment

There are two main types of asthma inhalers – preventers and relievers. Usually reliever inhalers are blue and it is taken by the child when symptoms present themselves. They relax the muscles that surround the narrow airways to make breathing easier. (According to Asthma UK if a child needs to use an asthma reliever inhaler more than 3 times a week this asthma is poorly controlled and should be clinically re-assessed)

Preventer inhalers can be brown, sometimes other colours, and they must be taken every day, even if the child feels well, as this lessens the swelling of the airways. This means that the child is less likely to have a negative reaction when they come into contact with an asthma trigger. There are other ways some children control their asthma such as tablets / granules (montelukast) and anti-histamines. Preventer inhalers will not improve breathing in the case of a sudden asthma attack.

Most children under five will need to use a spacer device to help them use their inhaler effectively. This large plastic device is shaped like a plastic bottle. At one end is an opening for the mouth, and at the other is a hole to fit the inhaler. The spacer facilitates the use of inhalers and ensures that the child gets the correct amount of medication in their lungs. If the child is under three, perhaps they will use a face mask.

In 2014 legal changes<sup>4</sup> made it possible for settings such as cylchoedd meithrin, nurseries and schools to purchase salbutamol inhalers without prescription, for use in emergency situations. If your Cylch will keep an emergency inhaler under this arrangement you will need to adopt Appendix A – the **Cylch Meithrin Salbutamol Emergency Inhaler Policy**, as part of this policy.

The Cylch will:

- provide an opportunity for every child with asthma to take full part in the activities of the cylch.
- ensure that the cylch environment, including the physical environment, social, and educational activities are suitable for children with asthma, e.g. especially when dealing with pets.

---

<sup>4</sup> [http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/1878/pdfs/uksi\\_20141878\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/1878/pdfs/uksi_20141878_en.pdf)

- holi'r rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid am symptomau asthma eu plant, sut y gellir adnabod fod symptomau yn ymddangos neu yn gwaethyg a beth sy'n debygol o achosi pwl o asthma. Dylid hefyd holi sut i gynorthwyo'r plentyn i gymryd y moddion lliniaru, e.e. os yw'r plentyn yn defnyddio gwahanwyr (spacers). Dylid sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r wybodaeth a roddir gan y rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid. Gellir trafod gyda rhieni os oes gan y plentyn gynllun asthma chadw copi o hwn yn y Cylch. Mae templed o gynllun asthma allai fod o ddefnydd i chi wrth drafod gyda rhieni ar wefan AsthmaUK.<sup>5</sup>
- Cyfrifoldeb (rhowch enwau) \_\_\_\_\_ a \_\_\_\_\_ fydd:
  1. Cadw cofnod penodol o bob plentyn ag asthma, a'r moddion y maent yn ei gymryd ynghyd â chofnod o'r arweiniad a roddir gan rieni. Dylid diweddar u'r cofnod yn rheolaidd.
  2. Sicrhau bod moddion lliniaru o fewn eu dyddiad terfyn.
  3. Sicrhau bod pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant addas ar y dull cywir o roi'r moddion. Dylai staff ddefnyddio'r wefan hon (<https://www.asthma.org.uk/advice/inhalers-medicines-treatments/using-inhalers/>) a gymeradwywyd gan arbenigwyr meddygol. Gall staff hefyd ofyn i rieni / gofalwyr / gwarcheidwaid, neu, os oes angen, feddyg neu berson cymwys arall. Dylid tystio hyn ar ffurflen MI a sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael ei ddiweddar u'nwaith y flwyddyn
  4. Deall bod pob plentyn ag asthma angen cymorth yn ddiymdroi i allu defnyddio anadlyddion lliniaru bob amser. O'r herwydd ni ddylai'r anadlyddion lliniaru gael eu cadw dan glo, a dylai **pob** aelod o staff wybod ym mhle y cedwir hwy. Sicrhewch fod mynediad i'r anadlydd ar gael bob amser e.e. ar ymweliadau y tu allan i'r Cylch
  5. Sicrhau bod gan y cylch fodion, anadlydd lliniaru a gwahanwr sbâr wedi eu labelu ar gyfer pob plentyn unigol sydd eu hangen. Rhaid i'r rhiant/gofalwr/gwarcheidwad labelu pob moddion, anadlydd a gwahanwr gydag enw'r plentyn arno.
  6. Sicrhau bod proses gadarn ar waith fel y rhoddir gwybod i rieni / gofalwyr / gwarcheidwaid bob tro mae'r plentyn wedi dangos symptomau asthma neu wedi gorfol defnyddio meddyginaeth i liniaru'r cyflwr tra yn y Cylch. Dylai rhieni / gofalwyr / gwarcheidwaid hysbysu os yw'r plentyn yn sâl neu wedi defnyddio anadlyddion lliniaru tu allan i'r Cylch.
  7. Gweithio mewn partneriaeth â holl staff y cylch, rhieni/gofalwyr, meddygon a nyrsys, i sicrhau bod y polisi yn cael ei weithredu a'i gynnal yn llwyddiannus.
  8. Cadw Cofrestr Asthma gydag anadlwyr y plant fel bod manylion ar gael yn gyflym o bob plentyn sydd yn dioddef asthma yn y Cylch a pha fodion maent ei angen a phryd.

<sup>5</sup> <https://www.asthma.org.uk/globalassets/health-advice/resources/children/child-asthma-action-plan.pdf>

- ask parents/carers/guardians for their children's asthma symptoms, how they can identify symptoms as they appear or worsen and what is likely to cause an asthma attack. Parents should also be asked how to administer reliever medication, e.g. whether the child uses separators (spacers). All staff should be made aware of the information given by the parents / carers / guardians. There is a template of an asthma plan that could be useful when discussing with parents on the website of AsthmaUK.<sup>6</sup>

- (Insert Names) \_\_\_\_\_ and \_\_\_\_\_ are responsible for:
  1. Keeping a specific record of which children have asthma, and the medicines they take, together with a record of the guidance given by parents. The record should be updated on a regular basis.
  2. Ensuring that reliever medicines are within their use-by-date.
  3. Ensuring that all staff members have received appropriate training on the right method of administering the medicines. Staff should use this website (<https://www.asthma.org.uk/advice/inhalers-medicines-treatments/using-inhalers/>) approved by medical experts. Staff can also ask parents/carers/guardians , or, if necessary, a doctor or other competent person. This should be certified on the MI form and it should be ensured that the training is updated once a year.
  4. Understanding that all children with asthma need immediate help to use reliever inhalers. As such, the reliever inhalers should not be locked up, and all staff should know where they are kept. Ensure that access to the inhaler is available at all times e.g. on visits outside of the Cylch.
  5. Ensuring that the Cylch has medication, a reliever inhaler and spare spacer for each child who requires them. Ensuring that parents/carers/guardians have labelled each medication, inhaler and spacer with the child's name.
  6. Ensuring that a robust process is in place so that parents/carers/guardians are notified each time the child has shown symptoms of asthma or has had to use medication to alleviate the condition whilst in the Cylch . Parents/carers/guardians should notify if the child is unwell or has used reliever inhalers outside of the Cylch.
  7. Working in partnership with all the Cylch's staff, parents/carers, doctors and nurses, to ensure that the policy is implemented and maintained successfully.
  8. Keeping an Asthma Register with the children's inhalers, so that details are on hand of which children in the Cylch suffer from asthma, and which medications are needed and when.

## Pyliau Asthma (Attack)

Bydd staff y Cylch yn gwybod sut i adnabod pwl o asthma, a bydd staff y Cylch ymateb yn gyflym oherwydd gallai'r pwl asthma ddirywio yn gyflym.

Gallai arwyddion cynnar o bwl o asthma gynnwys:

- Pesychu cyson (wrth orffwys)
- Prinder anadl neu anhawster i anadlu (gallai'r plentyn fod yn anadlu'n gyflym gydag ymdrech)
- Ffroenau llydan (y ffroenau yn symud wrth anadlu)
- Methu siarad neu gwblhau brawddegau
- Efallai y byddant yn ceisio dweud wrthych bod eu brest 'yn teimlo'n dynn' (gallai plant iau fynegi hyn fel poen bol)
- Bod yn anarferol o dawel
- Y gwefusau yn troi yn las

Os bydd plentyn yn dioddef pwl sydyn o asthma mi fydd staff y Cylch yn: (**gweler Atodiad B**)

- 1 Rhowch help i'r plentyn eistedd yn syth ag aros yn dawel a di-gynnwrf
- 2 Rhowch help i'r plentyn gymryd pwff o'r lliniarydd (glas fel arfer) bob 30-60 eiliad, hyd at 10 pwff (defnyddiwch ddyfais wahanu os oes un gennych)
- 3 Galwch 999 am ambiwlans os:
  - Nad ydynt yn dechrau gwella ar ôl 10 pwff
  - Mae eu symptomau yn gwaethyg e.e. peswch, fyr eu hanadl, gwichian, brest yn dynn, poen bol / brest
  - Rydych yn dal i boeni
- 4 Ail-adroddwch Cam 2 os yw'r ambiwlans yn cymryd hirach na 15 munud

Galwch 999 yn syth os nad oes lliniarwr gyda chi.

Os oes rhaid i chi fynd i'r ysbyty cofiwch fynd a chynllun asthma'r plentyn gyda chi (hyd yn oed os mae llun ohono sydd gennych)

## Asthma Attacks

The Cylch's staff will know how to recognise an asthma attack, and the Cylch's staff will respond quickly as an asthma attack can deteriorate quickly.

Early signs of an asthma attack can include:

- Constant coughing (while resting)
- Shortage of breath or difficulty breathing (child may be breathing quickly and with effort)
- Wide nostrils (the nostrils move when breathing)
- Unable to speak or complete sentences
- They may be trying to tell you that their ' chest feel tight' (younger children may express this as stomach pain)
- Being unusually quiet
- Lips turning blue

If a child suffers a sudden attack of asthma the Cylch's staff will: (**See Annex B**)

- 1 Help the child sit up straight and calm
- 2 Help the child take a puff of the inhaler (usually blue) for 30-60 seconds, up to 10 times. (Use a spacer if available)
- 3 Call 999 for an ambulance if:
  - They don't feel better after 10 puffs
  - Their symptoms get worse – e.g. cough, breathlessness, wheeze, tight chest or 'tummy / chest ache'
  - You're worried any time
- 4 Repeat step 2 if the ambulance takes longer than 15 minutes

Always call 999 immediately if you don't have a reliever inhaler with you.

If you go to A&E, remember to take your child's written asthma plan with you – even if it's a photo on your phone.

## Hysbysu Rhieni

Rhaid hysbysu o leiaf un rhiant neu berson â chyfrifoldeb rhiant yn syth. Dylid hefyd darparu hysbysiad ysgrifenedig iddynt yn dilyn pwл asthma er mwyn i'r rhiant allu trosglwyddo gwybodaeth i feddyg y plentyn. Dylid cadw copi o'r llythyr hwnnw yng nghofnod iechyd y plentyn.

### Cofnodi'r Digwyddiad:

Bydd angen cofnodi

- 1 Dyddiad / amser / lleoliad y digwyddiad a phryd defnyddiwyd meddygyniaeth
- 2 Sawl pwff o'r anadlydd a roddwyd a chan bwy? A ddefnyddiwyd dyfais wahanu? ( a roddwyd y ddyfais wahanu i'r plentyn gadw wedyn? Ni ddylai'r Cylch ei ail-ddefnyddio)
- 3 Manylion y pwл o asthma, beth ddigwyddodd, oedd y plentyn wedi mynd gartref / derbyn sylw meddygol / hysbyswyd y rhieni... ac ati

Dylid cadw copi o hwn yng nghofnod iechyd y plentyn.

Dylid cofnodi'r digwyddiad yn llyfr digwyddiadau ag hysbysu Arolygaeth Gofal Cymru (AGC).

## Informing Parents

At least one parent or person with parental responsibility must be notified straight away. They should also be given written notice following an asthma attack so that the parent can transfer this information to the child's doctor. A copy of that letter should be kept in the child's health record.

### Recording the event:

It will be necessary to record:

- 1 Date/time/location of incident and when medication was used
- 2 How many puffs of the inhaler was given and was a separator used? (Was the child given the separator to keep? The Cylch should not re-use it)
- 3 Details of the asthma attack; what happened, did the child go home / receive medical attention / were parents informed ... etc.

A copy of that letter should be kept in the child's health record.

The event should be recorded in the incident book and Care Inspectorate Wales (CIW) should be informed.

## ATODIAD A – POLISI ANADLYDD SALBUTAMOL BRYS

### CYLCH MEITHRIN TREFEURIG

Gwnaed newidiadau cyfreithiol<sup>7</sup> yn 2014 i alluogi lleoliadau fel cylchoedd meithrin, meithrinfeydd ag ysgolion i brynu anadlyddion salbutamol, heb bresgripsiwn i'w defnyddio mewn achosion brys. Nid yw'n ofynnol i gadw anadlydd, mater dewisiol ydyw os yw'r cylch / meithrinfa yn dymuno gwneud.

Mae Cylch Meithrin Trefeurig yn cadw anadlydd salbutamol, heb bresgripsiwn i'w ddefnyddio mewn achosion brys.

Bydd y pecyn anadlydd brys yn cynnwys:

- anadlydd gyda dos mesuredig o salbutamol;
- o leiaf dwy ddyfais wahanu blastig defnydd unigol, sy'n addas ar gyfer yr anadlydd;
- cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r anadlydd a'r ddyfais wahanu;
- cyfarwyddiadau ar lanhau a storio'r anadlydd;
- gwybodaeth y gwneuthurwr;
- rhestr wirio o anadlwyr, wedi'u nodi gan eu rhif swp a'u dyddiad dod i ben, gyda gwiriadau misol eu bod yn gweithio yn cael eu cofnodi;
- nodyn o'r trefniadau ar gyfer ailgyflenwi'r anadlydd a'r ddyfais wahanu (gweler isod);
- copi o'r gofrestr asthma, sy'n rhestru'r rhai sydd â chaniatâd i ddefnyddio'r anadlydd brys;
- cofnod gweinyddol (h.y. pryd y cafodd yr anadlydd ei ddefnyddio, sawl pwff).

Cyfrifoldeb \_\_\_\_\_ a \_\_\_\_\_ fydd sicrhau:

- yn fisol bod yr anadlydd a'r dyfeisiau gwahanu yn bresennol ac yn gweithio, a bod nifer ddigonol o byffiau yn yr anadlydd;
- bod rhifau swp yr anadlwyr yn cael eu cofnodi, a bod anadlwyr newydd yn cael eu caffaer pan fydd y dyddiadau dod i ben yn agosáu;
- bod dyfeisiau gwahanu newydd ar gael ar ôl i rai gael eu defnyddio;
- bod darn ceg yr anadlydd wedi'i lanhau, ei sychu a'i ddychwelyd i'r lleoliad storio ar ôl ei ddefnyddio, neu bod anadlwyr newydd ar gael os bydd angen.

<sup>7</sup> [http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/1878/pdfs/uksi\\_20141878\\_en.pdf](http://www.legislation.gov.uk/uksi/2014/1878/pdfs/uksi_20141878_en.pdf)

## **ANNEX A- EMERGENCY SALBUTAMOL INHALER POLICY FOR CYLCH MEITHRIN TREFEURIG**

Legal changes were made in 2014 to enable settings such as playgroups, nurseries and schools to buy salbutamol inhalers without prescription for use in an emergency. There is no requirement to keep an inhaler; it is the choice of the cylch / nursery if they do so.

Cylch Meithrin Trefeurig keeps a non-prescription salbutamol inhaler for use in an emergency.

The emergency inhaler package includes:

- A measured-dose salbutamol inhaler;
- At least two single use plastic spacers, suitable for use with the inhaler;
- Instructions on how to use the inhaler and spacer device;
- Instructions on cleaning and storing the inhaler;
- The manufacturer's information;
- Checklist of inhalers, identified by their batch number and expiration date, with monthly recorded checks that they are working correctly;
- Note of the arrangements for replenishing the inhaler and spacer device (see below);
- A copy of the asthma register, which lists those who have permission to use the emergency inhaler;
- An administrative record (i.e. when the inhaler use, how many puffs)

It is the responsibility of \_\_\_\_\_ and \_\_\_\_\_ to ensure:

- That the inhaler and the separation devices are present, that they are working and that the inhaler contains a sufficient number of puffs (check on a monthly basis)
- That the batch numbers of the inhalers are recorded, and that new inhalers be acquired as expiration dates approach;
- That new separation devices are available once the old ones are used;
- That the inhaler mouthpiece has been cleaned, dried and returned to the storage location after use, or that a new inhaler is available if necessary.

## DEFNYDD O'R ANADLYDD SALBUTAMOL BRYS

Gellir defnyddio anadlydd salbutamol brys y Cylch os nad yw anadlydd personol y plentyn ar gael (er enghraift mae'n wag neu maent wedi ei anghofio).

### Dim ond plant sydd wedi:

- Derbyn diagnosis o asthma ac sydd wedi derbyn anadlydd lliniaru rhagnodedig NEU blant sydd wedi derbyn anadlydd lliniaru rhagnodedig

### AC

- mae'r rhiant wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i ddefnyddio'r anadlydd brys,  
sydd yn gallu derbyn triniaeth salbutamol y Cylch.

Mae'r Cylch yn cadw cofrestr cyfredol o'r plant sydd wedi derbyn diagnosis asthma / sydd wedi derbyn anadlydd lliniaru rhagnodedig.

Cedwir y gofrestr hon yn y fan hon: \_\_\_\_\_

Cedwir y gofrestr hon gydag 'anadlydd salbutamol' a dyfais wahanu y cylch yn y fan hon:  
\_\_\_\_\_

Mewn achos o bwl asthma sydyn dylid dilyn y weithdrefn Asthma (Atodiad B)

### Camau i'w dilyn ar ôl defnyddio anadlydd salbutamol y Cylch

Rhaid cofnodi:

- Dyddiad / amser / lleoliad pryd y cafodd ei ddefnyddio
- Sawl pwff o'r anadlydd a roddwyd a chan bwy ac a ddefnyddiwyd dyfais wahanu? ( a roddwyd y ddyfais wahanu i'r plentyn gadw wedyn? Ni ddylai'r Cylch ei ail-ddefnyddio)
- Manylion y pwll o asthma, beth ddigwyddodd, oedd y plentyn wedi mynd gartref / derbyn sylw meddygol / hysbyswyd y rhieni... ac ati

## USE OF THE EMERGENCY SALBUTAMOL INHALER

The Cylch's emergency salbutamol inhaler can be used if the child's personal respirator is not available (for example it is empty or forgotten).

**Only children who have:**

1. Received an asthma diagnosis and have a prescribed relief inhaler OR children who have received a prescribed relief inhaler

**AND**

2. the parent has given written permission for the emergency inhaler to be used, can receive the Cylch's salbutamol treatment

The Cylch keeps a current register of children diagnosed with asthma/ and those who have received a prescribed relief inhaler.

This register is kept here: \_\_\_\_\_

This register is kept with a 'salbutamol inhaler' and a circle separation device here:

\_\_\_\_\_

In the event of a sudden asthma attack, the Asthma Procedure should be followed (see Appendix B).

### Steps to follow after using the Cylch's salbutamol inhaler

You must record:

- 1 Date/time/location when it was used
- 2 How many puffs of the inhaler was given and was a separator used? (Was the child given the separator to keep? The Cylch should not re-use it)
- 3 Details of the asthma attack, what happened, did the child go home / receive medical attention / were parents informed ... etc.

### **Yr anadlydd brys – canllaw storio a defnydd**

- Bydd yr anadlydd brys yn cael ei storio ar y tymheredd priodol (o dan 30°C) a'i ddiogelu rhag golau haul uniongyrchol a thymheredd eithafol
- Bydd yr anadlydd brys yn cael ei storio ar wahân i anadlyddion y plant ac mewn lle sydd ddim o dan glo.
- Bydd darn ceg yr anadlydd yn cael ei lanhau gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a'i ail ddefnyddio
- Bydd gwahanwyr anadlu yn cael eu rhoi i'r plentyn a ddefnyddiodd ef
- Dim ond staff wedi ei hyfforddi mewn defnydd anadlyddion sydd yn cael rhoi'r feddyginaeth salbutamol
- Bydd angen hysbysu Mudiad Meithrin eich bod yn storio a defnyddio anadlydd salbutamol penodol i'r Cylch at bwrpasau Yswiriant Indemniad

Ceir hyd i wybodaeth ychwanegol a chanllawiau pellach yma. Mae ffilmiau byr a chanllawiau manwl ar bob agwedd o ddelio gydag asthma gan y mudiad AsthmaUK.

<http://www.asthma.org.uk/advice>

<http://www.asthma.org.uk/advice-diagnosis-children>

<http://www.asthma.org.uk/advice-using-inhalers>

Safon 11 Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed

<https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-01/160411regchildcarecy.pdf>

### The emergency inhaler – storage and usage guide

- The emergency inhaler will be stored at the appropriate temperature (under 30 °C) and protected from direct sunlight and extreme temperatures
- The emergency inhaler will be stored separately from the children's inhalers and in a place that isn't under lock and key.
- The mouthpiece of the inhaler will be cleansed following the manufacturer's instructions and re-used.
- Breathing spacers will be given to the child who uses it.
- Only staff trained in the use of inhalers are able to administer the salbutamol medication.
- Mudiad Meithrin will need to be informed that you are storing and using a salbutamol inhaler for the purposes of Indemnity Insurance.

Additional information and further guidance is available here. You will find short videoclips and detailed guidance on every aspect of managing asthma on the website for AsthmaUK.

<http://www.asthma.org.uk/advice>

<http://www.asthma.org.uk/advice-diagnosis-children>

<http://www.asthma.org.uk/advice-using-inhalers>

Standard 11, National Minimum Standards for Regulated Child Care for children up to 12 years old:

<https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-01/160411regchildcareen.pdf>

ATODIAD B ANNEX B

## PAN MAE PLENTYN YN CAEL PWL O ASTHMA

### *IF A CHILD HAS AN ASTHMA ATTACK*

- 1 Rhowch help i'r plentyn eistedd yn syth ag aros yn dawel a di-gynnwrf
- 2 Rhowch help i'r plentyn gymryd pwff o'r lliniarydd (glas fel arfer) bob 30-60 eiliad, hyd at 10 pwff (defnyddiwch ddyfais wahanu os oes un gennych)
- 3 Galwch 999 am ambiwlans os:
  - Nad ydynt yn dechrau gwella ar ôl 10 pwff
  - Mae eu symptomau yn gwaethygu e.e. peswch, fyr eu hanadl, gwichian, brest yn dynn, poen bol / brest
  - Rydych yn dal i boeni
- 4 Ail-adroddwch Cam 2 os yw'r ambiwlans yn cymryd hirach na 15 munud

### If a child under 12 has an asthma attack

- 1 Help them sit up straight and keep calm.
- 2 Help them take one puff of their reliever inhaler (usually blue) every 30-60 seconds up to 10 puffs.
- 3 Call 999 for an ambulance if:
  - they don't feel better after 10 puffs
  - their symptoms get worse – e.g. cough, breathlessness, wheeze, tight chest or 'tummy/chest ache'
  - you're worried at any time.
- 4 Repeat step 2 if the ambulance takes longer than 15 minutes.



[www.asthma.org.uk](http://www.asthma.org.uk)

